

Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder:

1. Bod Cynllun Credyd Cynhwysol Llywodraeth San Steffan yn achosi argyfwng cymdeithasol;
2. Bod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol y tu allan i Gymru wedi achosi anawsterau ariannol difrifol;
3. Cyfrif Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint yn amlinellu eu profiad o gynorthwyo hawlwr Credyd Cynhwysol ers Ebrill 2017, sy'n crynhoi bod:
 - a. Pobl yn aros hyd at 12 wythnos am eu taliad cyntaf heb unrhyw incwm;
 - b. Mae'r system Credyd Cynhwysol yn rhy gymhleth;
 - c. Nid yw pobl yn cael cymorth pan fydd y system yn eu methu;
4. Bod cael mynediad i Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar
 - a. Derbynwyr gyda chyfrif banc personol;
 - b. Mynediad i'r rhyngrwyd;
5. O dan Credyd Cynhwysol, bydd costau tai yn cael eu talu i'r achwynydd ac nid y landlord
6. Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu 5 wythnos mewn ôl-ddyledion;
7. Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu fesul tŷ nid fesul unigolyn;
8. Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno i Sir Ddinbych gyfan erbyn Ebrill 2018.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi:

1. Yr anhawster cael mynediad i'r rhyngrwyd i nifer o drigolion ar draws Sir Ddinbych;
2. Llawer o fanciau cymunedol yn cau ar draws Sir Ddinbych;
3. Y toriad yn yr arian grant bloc a dderbyniodd Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru fydd yn rhoi pwysau ar wasanaethau nad ydynt wedi eu clustnodi, fel gwasanaethau bws a llyfrgelloedd;
4. Mae'r stoc tai cymharol fawr sydd gan Gyngor Sir Ddinbych yn golygu y gall effeithio ar incwm tai'r Cyngor;
5. Adroddiad Strategaeth Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych sy'n cynnwys pryderon am ddigartrefedd cynyddol yn y Sir;

Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach:

1. Bod Deddf yr Alban (2016) wedi rhoi pwerau i Lywodraeth yr Alban amrywio faint o Credyd Cynhwysol a delir yn yr Alban, y cyfeirir ato weithiau fel "Hyblygrwydd yr Alban".
2. Bod Hyblygrwydd yr Alban yn golygu bod pobl sy'n byw yn yr Alban sy'n gwneud cais Credyd Cynhwysol Newydd, mewn maes gwasanaeth llawn yn cael dewis:
 - a. Cael eu talu'n fisol neu ddwywaith y mis
 - b. Gyda'r costau tai perthnasol yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol a delir iddynt eu hunain neu eu landlordiaid.

Mae'r Cyngor hwn yn galw:

1. Ar Lywodraeth y DU i oedi cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol
2. Ar Lywodraeth Cymru i fynnu pwerau datganoli i amrywio sut y telir Credyd Cynhwysol yng Nghymru.